# Cynigion a Gwelliannau i'w Trafod ar 23 Ebrill 2002

## Cynigion a gyflwynwyd ar 16 Ebrill 2002

**NDM1031 Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn:

1. Derbyn adroddiad Carlile ar y mesurau i amddiffyn plant a phobl ifanc sy'n cael triniaeth a gofal gan y GIG yng Nghymru;

2. Croesawu'r camau sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru mewn ymateb i ddarganfyddiadau'r adroddiad; ac yn

3. Cydnabod y bydd angen gwaith didor yn y misoedd nesaf er mwyn rhoi argymhellion yr adroddiad ar waith.

*Gellir gweld copïau o Adroddiad Carlisle trwy ddefnyddio'r dolenni cyswllt canlynol:*

*Fersiwn Cymraeg:* http://cynulliad/health/Key%20Publications/Young%20people/Welsh%20text.pdf

*Ferswin Saesneg:* http://assembly/health/Key%20Publications/Young%20people/English%20text.pdf

Anfonwyd copi o ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad Carlisle ar e-bost at bob Aelod ar 16 Ebrill 2002.

**Dadl Plaid Leiafrifol**

**NDM1032 Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn condemnio methiant Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu polisi trafnidiaeth integredig sy'n dod â budd i Gymru gyfan.

**Gwelliannau a gyflwynwyd ar 18 Ebrill 2002**

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu'r gwelliannau canlynol i gynigion:

**NDM1031**

**1. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Galw ar y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i roi ystyriaeth bellach i Adroddiad Carlisle yn ystod yr Adolygiad o Wasanaethau i Blant ag Anghenion Iechyd Arbennig.

**NDM1032**

**1. Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr)**

Dileu'r cyfan ar ôl "Cynulliad Cenedlaethol Cymru" a rhoi:

"yn cefnogi Fframwaith Trafnidiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2001 sy'n nodi gweledigaeth a strategaeth cynhwysfawr ar gyfer datblygu trafnidiaeth integredig ledled Cymru ac a gymeradwywyd gan Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth ar ôl ymgynghori'n eang."

*Gellir gweld copi o Fframwaith Trafnidiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y Rhyngrwyd yn:*

http://www.wales.gov.uk/subitransport/content/policy/framework/framework-full-e.pdf

*Anfonwyd copi personol o Fframwaith Trafnidiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru at bob Aelod ar 21 Tachwedd 2001.*

**2. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu'r cyfan ar ôl "Cynulliad Cenedlaethol Cymru" a rhoi:

'yn nodi'r camau sy'n cael eu cymryd i sicrhau polisi trafnidiaeth integredig a fydd o fudd i Gymru gyfan'.

**3. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu fel pwynt newydd

'Yn cadarnhau ei fod yn cefnogi'r argymhellion y mae'r Pwyllgor wedi cytuno arnynt, mewn egwyddor, ac yn disgwyl y cynigion a fydd yn seiliedig ar yr argymhellion hyn.'

**4. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu fel pwynt newydd

'Yn galw ar Brif Weinidog Cymru i gyflwyno sylwadau i Ysgrifennydd Gwladol Cymru i roi pwysau ar Lywodraeth y DU i drosglwyddo'r gwaith o weinyddu'r Cymhorthdal Rheilffyrdd ar gyfer Cymru i'r Cynulliad Cenedlaethol.'